Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Moelwyn

Heol Wynne
Blaenau Ffestiniog
Gwynedd
LL41 3DW

Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Y Moelwyn

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Y Moelwyn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | Dwyieithog |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | - |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 355 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 355 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | - |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Uwchradd yw 20.3%) | 16.1% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Uwchradd yw 9.0%) | 26.8% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 81.7% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 10/01/2022 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 09/10/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 27/04/2026 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol y Moelwyn yn gymuned gynnes, ofalgar a chynhwysol lle mae perthnasoedd cadarn rhwng staff a disgyblion yn greiddiol i'w llwyddiant. Mae ethos cryf o hyrwyddo cyfrifoldeb, parch a chydweithio, sy'n seiliedig ar 'Ffordd Ffestiniog', yn treiddio'n effeithiol trwy bob agwedd o fywyd yr ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu parchu ac yn datblygu ymdeimlad cryf o berthyn i'w hysgol a'u cymuned. Mae'r balchder lleol a chymunedol yn cael ei adlewyrchu'n glir yn agweddau cadarnhaol y rhan fwyaf o ddisgyblion tuag at eu dysgu, eu hymddygiad rhagorol a'u defnydd hyderus o'r Gymraeg fel iaith naturiol cyfathrebu.

Un o gryfderau nodedig yr ysgol yw ansawdd y perthnasoedd a'r diwylliant o barch a chydweithio sy'n bodoli mewn gwersi. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn darparu cymorth ac arweiniad effeithiol iddynt. Mae hyn yn galluogi llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), i wneud cynnydd cadarn. Mewn lleiafrif o wersi, mae addysgu'n arbennig o effeithiol o ganlyniad i gynllunio medrus, disgwyliadau uchel a holi treiddgar. Yn y gwersi hyn, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw disgwyliadau athrawon yn ddigon uchel ac mae diffyg her a ffocws ar ddatblygu gwybodaeth bynciol yn cyfyngu ar gynnydd disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd yn gryfder. Ceir cynllunio bwriadus i sicrhau cyfleoedd cyson i ddatblygu medrau darllen, ysgrifennu a llafaredd ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn darllen ac yn ysgrifennu'n effeithiol ar gyfer ystod o ddibenion, ac yn defnyddio geirfa gyfoethog, gan gynnwys elfennau tafodieithol sy'n adlewyrchu eu hardal leol. Er hyn, mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau ieithyddol mynych ac yn ddibynnol ar gymorth strwythurol yn eu gwaith ysgrifenedig.

Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd mewn pynciau addas ar draws y cwricwlwm yn gyfyngedig. Er bod gan lawer o ddisgyblion fedrau rhif sylfaenol cadarn, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau rhifedd ar draws pynciau yn ei ddyddiau cynnar. Nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatrys problemau, rhesymu'n fathemategol na chymhwyso eu medrau rhif mewn cyd-destunau newydd. Mae datblygiad medrau digidol disgyblion yn gadarn, ar y cyfan. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio technoleg yn briodol ac yn datblygu eu medrau digidol yn effeithiol mewn ystod o gyd-destunau.

Mae'r cwricwlwm yn berthnasol i'r disgyblion, gan adlewyrchu a dathlu diwylliant, treftadaeth a chyd-destun unigryw'r ardal yn llwyddiannus. Mae profiadau dysgu

cyfoethog, gan gynnwys ymweliadau addysgol diddorol a chydweithio â phartneriaid, yn ehangu gorwelion disgyblion ac yn meithrin balchder yn eu cynefin.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais clir ar les disgyblion. Ceir systemau bugeiliol cadarn, cymorth effeithiol a darpariaeth gynhwysfawr ar gyfer disgyblion sy'n sicrhau eu bod yn cael y gefnogaeth briodol i wneud cynnydd a datblygu'n unigolion hyderus. Mae'r ysgol yn defnyddio strategaethau effeithiol i gefnogi a monitro presenoldeb grwpiau penodol. O ganlyniad, mae presenoldeb disgyblion wedi gwella dros amser ac yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion tebyg.

Mae'r pennaeth yn arweinydd effeithiol sy'n hyrwyddo gweledigaeth glir a gaiff ei harddel a'i rhannu'n llwyddiannus gan holl gymuned yr ysgol. Mae diwylliant cryf o wrando ar lais disgyblion, staff a rhieni yn arwain at welliannau ystyrlon, ac mae hyn yn gryfder arbennig. Mae'r amrywiol fforymau disgyblion yn dylanwadu'n effeithiol ar agweddau allweddol o fywyd yr ysgol ac yn galluogi disgyblion i ddatblygu'n ddinasyddion hyderus ac ymroddedig. Er bod arweinwyr yn defnyddio ystod o weithdrefnau sicrhau ansawdd ac yn cynllunio'n fwriadus ar gyfer gwelliant, nid yw'r defnydd o ddata bob amser yn ddigon miniog i lywio hunanwerthuso a blaenoriaethau gwella yn ddigon penodol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella:

A1 Cryfhau prosesau hunanwerthuso, yn enwedig y defnydd o ddata, er mwyn sicrhau bod y blaenoriaethau gwella yn ddigon miniog

A2 Sicrhau darpariaeth gydlynus i ddatblygu rhifedd mewn pynciau perthnasol

A3 Lledaenu'r arferion addysgu cryf a welwyd yn y gwersi gorau er mwyn cysoni ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â darparu ar gyfer y disgybl cyfan, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Addysgu a dysgu

Mae'r diwylliant o barch a chydweithio effeithiol rhwng athrawon a disgyblion Ysgol y Moelwyn yn gryfder nodedig sy'n cyfoethogi'r profiadau dysgu ac addysgu. Mae gan y rhan fwyaf o athrawon adnabyddiaeth dda o'u disgyblion ac mae eu gofal ohonynt yn amlwg. Mae'r amgylchedd dysgu cadarnhaol hefyd yn hyrwyddo ethos cefnogol. O ganlyniad i'r nodweddion ysgogol hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac maent yn dyfalbarhau a chanolbwyntio'n dda.

Amlygir yr agweddau cadarnhaol hyn yn niwyg a chyflwyniad gofalus llyfrau'r disgyblion. Yma, gwelwn lawer o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i adborth ysgrifenedig defnyddiol ac adeiladol eu hathrawon. Defnyddia'r athrawon hyn feini prawf llwyddiant clir i gynorthwyo'r disgyblion i ddeall yr hyn sydd angen ei gyflawni a'i wella. Mae nifer helaeth o ddisgyblion yn manteisio ar y tocynnau gloywi iaith Cymraeg a Saesneg sy'n cynnig tasgau iaith penodol wedi'u teilwra'n ofalus i'w galluogi i gywiro gwallau penodol sy'n britho'u gwaith.

Mae addysgu cadarn llawer o athrawon yn galluogi disgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), i wneud cynnydd da. Mae'r athrawon hyn yn:

- cynllunio tasgau a gweithgareddau sy'n adeiladu'n rhesymegol ac yn cynnig lefel her sy'n gweddu'n addas i anghenion disgyblion
- darparu adnoddau cyfoes a defnyddiol i gefnogi a chynnal diddordeb disgyblion
- cynnig adborth lafar a chefnogaeth gyson a buddiol wrth symud o gwmpas y dosbarth
- holi'n effeithiol i wirio dealltwriaeth ac annog disgyblion i ddefnyddio geirfa gyfoethog a phynciol wrth ateb

Mewn lleiafrif o wersi, mae'r addysgu'n arbennig o effeithiol, sy'n galluogi disgyblion i wneud cynnydd cryf a buan. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn angerddol am eu pynciau ac yn tanio brwdfrydedd y disgyblion. Maent yn teilwra'r cynllunio'n grefftus ac yn llywio'r dysgu i gynnig cyfarwyddiadau ac esboniadau clir fel bod disgyblion o bob gallu yn deall natur y tasgau a osodir. Yn ogystal, maent yn holi cwestiynau treiddgar sy'n herio'r disgyblion ac yn eu hannog i esbonio a chyfiawnhau eu hymatebion.

Mewn ychydig o wersi, mae diffygion yn yr addysgu yn cyfyngu ar y cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud. Yn y gwersi hyn, nid oes gan yr athrawon ddisgwyliadau digon

uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni. Maent yn cyflwyno tasgau arwynebol i gadw disgyblion yn brysur ac nid oes digon o ffocws ar ddatblygu gwybodaeth bynciol. Nid ydynt ychwaith yn gwirio cynnydd na dealltwriaeth disgyblion yn ddigon da.

Mae cwricwlwm y Moelwyn yn ymgorffori a dathlu cyd-destun, diwylliant a threftadaeth yr ardal leol yn hynod lwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 7 yn datblygu a chryfhau eu medrau llythrennedd law yn llaw â'u gwybodaeth bynciol trwy wersi Cymraeg a dyniaethau ar y cyd. Mae arweinwyr yn myfyrio'n barhaus ar gynnwys y cwricwlwm, gan ddiwygio a mireinio er mwyn sicrhau bod anghenion pob dysgwr yn cael eu diwallu. Nodwedd arbennig yw'r ystod eang o brofiadau dysgu a theithiau addysgol sy'n cyfoethogi'r cwricwlwm ymhellach. Er enghraifft, mae staff yn manteisio ar ymweliadau â lleoedd hanesyddol lleol fel 'Yr Ysgwrn' sy'n cyfoethogi dealltwriaeth disgyblion a'u balchder o'u hardal a'u gwlad. Ymestynnir y profiad ymhellach gyda thaith i Wlad Belg a man gorffwys Hedd Wyn. Mae'r ysgol hefyd yn cydweithio'n fwriadus ag ysgolion cynradd partner wrth gynllunio darpariaeth sy'n sicrhau datblygiad cynyddol o brofiadau dysgu o'r cynradd i'r uwchradd.

Mae'r cwricwlwm ym Mlwyddyn 10 ac 11 yn cynnig amrediad o bynciau sy'n adlewyrchu cyd-destun yr ysgol a diddordebau'r disgyblion yn dda. O ganlyniad, maent yn elwa ar ystod briodol o gyrsiau oddi fewn yr ysgol a thrwy bartneriaethau effeithiol â cholegau, darparwyr ac ysgolion eraill. Mae'r trefniadau hyn yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o'r disgyblion yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol werthoedd cadarn wedi'u seilio ar 'Ffordd Ffestiniog' – Cyfrifoldeb, Parch a Chydweithio. O ganlyniad, mae'r ysgol yn datblygu disgyblion sy'n chwarae rhan weithredol o fewn eu cymunedau lleol. Mae'r cynllunio bwriadus i hyrwyddo cydraddoldeb, herio rhagfarnau a dathlu amrywiaeth yn gryfder amlwg ac yn treiddio trwy lawer o bynciau. Darperir addysg cydberthynas a rhywioldeb yn effeithiol ar draws yr ysgol. Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am amrywiaeth, gan gynnwys profiadau pobl o gefndiroedd ethnig amrywiol a chymunedau LHDTC+.

Mae'r rhaglen iechyd a lles yn rhan ganolog o'r cwricwlwm, ac yn darparu cyfleoedd perthnasol i drafod materion cyfoes megis diogelwch ar-lein a chamddefnyddio sylweddau. Gwna arweinwyr ddefnydd priodol o ddata holiaduron lles i gynllunio gweithgareddau sy'n cefnogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol ac emosiynol disgyblion. Ystyria'r ysgol yn llawn lais a barn y disgyblion wrth gynllunio'r rhaglen a gwahoddir arbenigwyr allanol i gyfoethogi'r ddarpariaeth ymhellach.

Mae ystod eang o glybiau a gweithgareddau allgyrsiol yn cyfoethogi'r cwricwlwm ac yn ehangu profiadau'r disgyblion. Mae rhain yn cynnwys 'Swpar Chwarel' – lle cynigir bwyd i'r gymuned, clwb gwyddbwyll a chlwb celf. Mae nifer yn cyfranogi'n frwd mewn ystod o

weithgareddau o fewn gwersi addysg gorfforol a thrwy arlwy o gyfleoedd chwaraeon allgyrsiol.

**Llythrennedd**

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd disgyblion y Moelwyn wedi’i chydlynu’n ofalus. Mae arweinwyr wedi mapio cyfleoedd pwrpasol sy’n sicrhau bod medrau llythrennedd disgyblion yn y Gymraeg a Saesneg yn cael eu datblygu ar draws y cwricwlwm. Mae’r ysgol yn adolygu a gwerthuso’r ddarpariaeth yn fanwl ac yn addasu, lle bo’n briodol.

Ar draws y cwricwlwm, mae amrywiaeth o gyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymarfer a chryfhau eu medrau darllen sylfaenol. Ceir hefyd gyfleoedd iddynt ddatblygu eu huwchfedrau darllen mewn nifer o bynciau. O ganlyniad i gyfleoedd cynyddol, mae llawer o ddisgyblion yn dehongli a chymharu ffynonellau yn llwyddiannus. Maent yn ymateb yn synhwyrol i ddeunyddiau darllen mewn nifer o bynciau, yn cynnwys hanes cyfoes tîm pêl-droed merched Iran i hanes lleol am streic chwarel y Penrhyn. Yn y gwersi Cymraeg, mae llawer yn dadansoddi technegau arddull yn fanwl, er enghraifft wrth ddadansoddi golygfeydd a chymeriadau o’r ffilm ‘Y Mynydd Grug’. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn dadansoddi a dehongli testunau amrywiol yn fanwl a chrefftus gan ymhelaethu ar effaith yr arddull. Yn y gwersi Saesneg, mae llawer yn gallu adnabod technegau llenyddol ieithyddol yn addas, gyda’r mwyafrif yn dehongli effaith y rhain yn briodol, ac ychydig yn gwneud hynny’n  grefftus.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando’n ofalus ar safbwyntiau ei gilydd ac ar gyfarwyddiadau’r athro. Er bod bratiaith yn britho iaith lafar ychydig o ddisgyblion yn y ddwy iaith, mae llawer o ddisgyblion yn gyfforddus a lled hyderus i drafod a rhannu syniadau. Yn gyffredinol, maent yn cyfrannu'n bwrpasol at drafodaethau dosbarth, gyda llawer yn cynnig sylwadau adeiladol yn y Gymraeg a’r mwyafrif yn gwneud hynny’n llwyddiannus yn Saesneg. Eto, mae ychydig o ddisgyblion yn dawedog ac yn ddi-hyder i ymhelaethu ar eu hatebion yn y ddwy iaith. Mae gan lawer o ddisgyblion eirfa Gymraeg dda ac maent yn gwau geiriau tafodieithol naturiol a dywediadau bachog yr ardal i’w sgyrsiau, er enghraifft wrth iddynt ddisgrifio ansawdd a blas y mêl a ddaw o gwch gwenyn yr ysgol. Mae ychydig o ddisgyblion yn mynegi eu hunain yn hynod effeithiol a rhugl.

Mae arweinwyr yn gweithio’n effeithiol gydag adrannau i sicrhau bod cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn cynhyrchu gwaith diddorol ar gyfer ystod o gynulleidfaoedd a dibenion. Er enghraifft, mewn gwersi hanes, maent yn trafod ai rhesymau gwleidyddol oedd prif achos

y protestiadau Cymreig yn y cyfnod modern. Mae llawer yn trefnu eu gwaith ysgrifenedig yn rhesymegol, gan ddefnyddio paragraffau'n gywir a geirfa bynciol addas. Drwyddi draw, defnyddia'r disgyblion ddywediadau tafodieithol bachog yn eu gwaith, megis 'Roedd mam yn beryg bywyd pan yn siopa'. Yn y ddwy iaith, gwna'r disgyblion ar draws yr ystod gallu ddefnydd buddiol o restrau geirfa a strwythurau ysgrifennu i ddatblygu eu medrau ysgrifennu. Mae hyn yn aml yn arwain at ddycnwch i ysgrifennu'n estynedig. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau sillafu a gramadegol mynych yn y ddwy iaith. Maent yn or-ddibynnol hefyd ar fframiau ysgrifennu i'w cynorthwyo yn eu gwaith ysgrifenedig Saesneg. Ceir strategaethau synhwyrol fel y 'Focus and fix it' i helpu disgyblion i wella cywirdeb eu gwaith Saesneg ysgrifenedig. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn manteisio'n dda ar yr adnoddau gwerthfawr sydd ar gael yn y 'gorsafoedd iaith', sydd wedi'u harddangos yn glir yn yr ystafelloedd dysgu.

**Rhifedd**

Mae'r ysgol yn dechrau ar y gwaith o gydlynu'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion yn y pynciau perthnasol. Ceir rhai cyfleoedd addas i ddisgyblion ymarfer a chymhwyso'u medrau mewn pynciau perthnasol y tu hwnt i fathemateg. Er bod cyfle i ddisgyblion ddangos rhuglder yn y tasgau, nid oes digon o gyfleoedd iddynt ddatrys problemau, rhesymu'n fathemategol na chymhwyso medrau rhifedd mewn cyd-destunau newydd.

Yn gyffredinol, mae mwyafrif y disgyblion yn meddu ar fedrau rhif sylfaenol cadarn. Maent yn defnyddio'r pedair rheol rhif yn gywir, yn cyfrifo â degolion ac yn gweithio'n dda gyda ffurfiau safonol. O fewn gwersi mathemateg, mae dealltwriaeth y mwyafrif o reolau onglau syml a chysyniadau mesur, siâp a gofod yn briodol. Mae ychydig o ddisgyblion yn ymestyn eu medrau yn dda i agweddau mwy cymhleth, megis cyfrifo hyd arc ac arwynebedd sector.

Mewn ychydig o bynciau ar draws y cwricwlwm, mae'r mwyafrif yn ymdrin â symbolau yn briodol ac yn defnyddio fformiwlâu syml yn effeithiol. Er enghraifft, mewn gwyddoniaeth, mae disgyblion yn cyfrifo cyflymder yn llwyddiannus. Mae llawer o ddisgyblion yn tynnu gwybodaeth gywir o dablau a graffiau ac yn gwneud dadansoddiadau syml o batrymau.

Mae gan leiafrif y disgyblion fedrau rhifedd gwan. Nid oes ganddynt ddealltwriaeth ddigonol o agweddau fel gwerth lle, sy'n cyfyngu ar eu gallu i drefnu degolion ac adio a thynnu rhifau. Yn ogystal, mae ychydig o ddisgyblion yn dibynnu ar lwybrau byr

gweithdrefnol. Er enghraifft, maent yn tynnu sero wrth rannu, heb ddealltwriaeth gysyniadol ddigonol o’r egwyddorion mathemategol. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn cael trafferth llunio graffiau’n gywir ac yn wynebu heriau wrth greu graddfeydd echelau synhwyrol a phlotio data’n gywir.

### Medrau digidol

Mae gan yr ysgol weledigaeth gadarn er mwyn datblygu medrau digidol disgyblion, gan roi pwyslais clir ar feithrin hyder a dycnwch y disgyblion i lewyrchu drwy ddatblygu eu hyfedredd. Ceir ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau o fewn eu gwersi digidol, ac er ei fod yn ei ddyddiau cynnar, mae profiadau priodol yn datblygu ar draws y cwricwlwm.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn briodol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ddiogelwch ar-lein ac yn arddangos medrau digidol datblygedig, er enghraifft wrth ddefnyddio rhaglenni codio i reoli modelau trên a moduron ym Mlwyddyn 9.

### Medrau ehangach

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu ystod addas o fedrau ehangach ar draws y cwricwlwm. Mewn gwersi celf, maent yn braslunio’n hyderus, gan arbrofi’n greadigol gyda gwahanol arddulliau, megis gwaith wedi’i ysbrydoli gan Roy Lichtenstein ac Andy Warhol. Yn eu gwersi dylunio a thechnoleg, mae llawer yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu eu creadigrwydd yn briodol wrth ddylunio a chynhyrchu eitemau yn annibynnol. Yn eu gwersi cerdd, maent yn datblygu eu medrau meddwl a chreadigol yn briodol drwy ddefnyddio meddalwedd i gyfansoddi alawon yn annibynnol.

## Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol y Moelwyn yn gymuned gynnes a gofalgar, lle mae disgyblion a staff yn cydweithio'n effeithiol. Mae gan y staff adnabyddiaeth arbennig o’r disgyblion a’u teuluoedd. Mae’n gymdogaeth agos, gefnogol a chynhwysol sydd â naws deuluol ac ymdeimlad cryf o berthyn i un ysgol. Mae bron pob disgybl yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u trin yn deg, ac mae gwerthoedd yr ysgol o barch, cyfrifoldeb a chydweithio yn ganolog i’w hethos. Mae'r ysgol yn gweithredu ar y weledigaeth, sef ‘Ffordd Ffestiniog’,

sy'n canolbwyntio ar feithrin disgyblion sy'n gyfrifol, yn parchu eraill, ac yn barod i gydweithio o fewn yr ysgol a thu hwnt. Mae bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus i fynegi unrhyw bryderon. Os oes pryderon yn codi, mae’r ysgol yn ymateb yn brydlon ac yn sensitif.

Mae gan yr ysgol systemau cadarn ar gyfer monitro a chefnogi presenoldeb disgyblion. Mae’r staff yn meithrin perthnasoedd cryf â theuluoedd gan bwysleisio pwysigrwydd ac effaith mynychu’r ysgol yn ddyddiol. Mae’r ysgol yn adnabod a thargedu presenoldeb grwpiau o ddisgyblion ac yn cydweithio â’r tîm lles ac asiantaethau allanol i ddarparu ymyraethau addas. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae presenoldeb disgyblion, gan gynnwys disgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim wedi gwella ac uwchlaw’r hyn a welir mewn ysgolion tebyg.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn rhagorol mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn dangos medrau cymdeithasol cryf, yn trin oedolion a’i gilydd gyda pharch a chwrteisi, ac yn cyfarch ymwelwyr yn gynnes. Maent yn dangos balchder amlwg yn eu hysgol, eu gwaith a’r Gymraeg. Y Gymraeg yw cyfrwng naturiol y cyfathrebu, ac mae disgyblion yn siarad yr iaith yn hyderus, yn rhugl ac yn ddigymell. Mae’r rhan fwyaf yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth fanwl o anghenion personol ac emosiynol disgyblion ac maent yn defnyddio’r wybodaeth hon yn effeithiol i fonitro lles o ddydd i ddydd. O ganlyniad, mae disgyblion yn cael mynediad amserol at ofal priodol heb rwystrau. Mae staff ‘Stwlan’ a ‘Cwt y Bugail’ yn darparu cymorth gwerthfawr i ddisgyblion sydd angen cynhaliaeth emosiynol neu academaidd mewn amgylchedd tawel a diogel. Mae arweinwyr bugeiliol a lles yn cydweithio’n effeithiol â phartneriaid allanol i ymateb i anghenion lles disgyblion yn brydlon ac yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol drefniadau pontio cadarn. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer disgyblion sy’n trosglwyddo ar wahanol adegau o’u gyrfa ysgol, ac wrth iddynt baratoi ar gyfer symud ymlaen at addysg bellach neu fyd gwaith.

### Ciplun: Dylanwad ac effaith llais y disgybl

Mae dylanwad ac effaith llais y disgybl yn elfen gref o waith yr ysgol, ac mae’n cael ei ddefnyddio i lywio pob agwedd o’r ddarpariaeth. Mae cynrychiolaeth eang o ddisgyblion yn ffurfio aelodaeth y fforymau amrywiol a’r cyngor ysgol. Maent yn unigolion huawdl, parchus a hyderus, sy’n arddangos medrau arwain aeddfed, ac yn dylanwadu’n llwyddiannus ar brofiadau eu cyd-ddisgyblion. Er enghraifft:

- Mae'r fforwm cydraddoldeb wedi cyfrannu'n effeithiol at hyrwyddo tegwch, parch a chynhwysiant drwy drefnu gweithgareddau fel cystadleuaeth 'Cariad nid Casineb' ar Ddiwrnod Santes Dwynwen. Mae hyn yn codi ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd perthnasoedd cadarnhaol a chydraddoldeb.

- Mae'r fforwm dysgu ac addysgu wedi dylanwadu ar newid i drefniadau asesu.

- Yn dilyn cyfnod o ymchwil ac ymgynghori, mae gwaith y cyngor wedi sicrhau gwelliannau i'r amgylchedd drwy gyflwyno meinciau newydd o amgylch yr ysgol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth gadarn o effaith gwaith y fforymau a'r cyngor o ganlyniad i strwythurau cyfathrebu clir sy'n cynnwys trafodaethau ac adborth wythnosol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ADY yn gryfder. Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol ar gyfer adnabod anghenion disgyblion yn gynnar. Mae prosesau pontio cadarn yn cynnwys cyfleoedd cynnar rheolaidd i alluogi disgyblion i ymgyfarwyddo â'r ysgol ac ymgartrefu'n gyflym. Mae'r tîm ADY yn cydweithio'n agos ag ysgolion cynradd partner i gasglu a dadansoddi ystod eang o wybodaeth berthnasol er mwyn cynllunio'n bwrpasol i sicrhau trosglwyddiad llyfn i'r ysgol uwchradd.

Mae arweinwyr yn dadansoddi data llythrennedd a rhifedd yn fanwl er mwyn darparu ymyraethau addas sy'n targedu anghenion penodol disgyblion, gan gynnwys cefnogaeth i ddatblygu medrau a lles emosiynol. Mae'r tîm yn monitro cynnydd disgyblion yn rheolaidd ac yn addasu darpariaeth yn hyblyg, yn ôl yr angen.

Mae adnabyddiaeth drylwyr y tîm ADY o ddisgyblion unigol yn sicrhau bod y rhai sy'n mynychu'r ddarpariaeth arbenigol yn ystafell y 'Nyth', yn derbyn ymyraethau a chefnogaeth bwrpasol sy'n eu galluogi i deimlo'n gartrefol ac i wneud cynnydd. Mae cynlluniau datblygu unigol a phroffiliau un dudalen yn gynhwysfawr ac yn ddefnyddiol. Maent yn darparu arweiniad clir ac ymarferol i athrawon ar sut i gefnogi disgyblion yn effeithiol. Rhoddir canllawiau clir, hyfforddiant pwrpasol ac adnoddau o ansawdd uchel i sicrhau bod staff wedi'u harfogi'n dda i ddiwallu anghenion bron pob disgybl yn yr ystafell ddosbarth. O ganlyniad, mae disgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd da dros amser.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf o ddiogelu ac mae trefniadau priodol i gadw disgyblion yn ddiogel. Mae arweinwyr yn sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant statudol priodol ar gyfer amddiffyn plant ac, o ganlyniad, maent yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau o ran cadw disgyblion yn ddiogel.

### Arwain a gwella

Mae'r pennaeth yn arweinydd angerddol ac uchelgeisiol sy'n gosod lles a chynnydd disgyblion wrth galon gwaith yr ysgol. Caiff ei chefnogi'n fedrus gan y dirprwy bennaeth. Serch y cyfrifoldebau sylweddol sydd gan yr uwch arweinwyr hyn, maent yn cydweithio'n effeithiol â thîm estynedig o staff sy'n arwain ar agweddau allweddol.

Gyda'i gilydd, mae arweinwyr yn hyrwyddo gweledigaeth glir, sef 'Ffordd Ffestiniog'. Mae'r weledigaeth hon wedi'i rhannu'n llwyddiannus ac yn cael ei harddel gan holl gymuned yr ysgol. Mae hyn wedi cyfrannu'n sylweddol at welliannau mewn ymddygiad, agweddau at ddysgu a chodi dyheadau disgyblion dros amser.

Un o gryfderau nodedig yr ysgol yw'r modd y mae arweinwyr yn casglu ac yn ymateb i farn staff, disgyblion a rhieni. Mae hyn wedi arwain at welliannau pendant, megis gwella adnoddau a chyfleusterau, a datblygu ethos tîm cryf.

Mae arweinwyr yn canolbwyntio'n dda ar flaenoriaethau cenedlaethol ac wedi gwneud cynnydd cryf mewn meysydd pwysig, er enghraifft wrth ddiwygio trefniadau ADY a hyrwyddo'r Gymraeg. Maent hefyd wedi gwneud cynnydd cadarn yn erbyn argymhellion yr arolygiad diwethaf. Mae arweinyddiaeth gref wedi cael effaith gadarnhaol ar nifer o agweddau pwysig o waith yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys gwella ansawdd yr addysgu, codi safonau llythrennedd, a gwella ymgysylltiad a phresenoldeb disgyblion. Fodd bynnag, mae'r cynllunio strategol i wella darpariaeth a safonau rhifedd yn ei ddyddiau cynnar.

Mae arweinwyr canol yn deall eu rolau'n dda ac maent yn ymateb yn gadarnhaol wrth gyfrannu at welliannau ysgol gyfan. Mae cyfarfodydd rheolaidd gydag uwch arweinwyr yn cynnig her a chefnogaeth briodol iddynt. Rhoddir sylw cymwys i gryfderau a meysydd i'w gwella gan ganolbwyntio ar feysydd pwysig fel datblygiad medrau llythrennedd, addysgu a'r cwricwlwm a datblygu medrau arweinyddiaeth.

Mae gan yr ysgol drefniadau sicrhau ansawdd cynhwysfawr sy'n cynnwys arsylwadau gwersi, craffu ar waith a gwrando ar lais y disgybl. Mae arweinwyr ar bob lefel yn cyfrannu at y prosesau hyn. Mae ganddynt adnabyddiaeth dda o flaenoriaethau cyffredinol yr ysgol. Er bod arweinwyr yn ystyried effaith yr addysgu yn briodol, mae gwerthusiadau ychydig ohonynt yn rhy hael. Mae eu defnydd o ddata i'w cynorthwyo i ddod i farn am ansawdd y ddarpariaeth yn datblygu, ond nid yw hyn bob amser yn ddigon miniog na chyson. O ganlyniad, nid yw arfarniadau bob amser yn nodi'r agweddau mwyaf penodol ar gyfer gwella yn ddigon miniog.

Mae cysylltiad clir rhwng blaenoriaethau ysgol gyfan, trefniadau rheoli ac adolygu perfformiad, a datblygiad proffesiynol. Mae hyn yn galluogi'r ysgol i gynllunio rhaglen datblygiad proffesiynol sy'n cefnogi pob aelod o staff. Mae blaenoriaethau adrannol yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau'r ysgol gyfan. Mae trefniadau rheoli ac adolygu

perfformiad yn addas, gyda thargedau'n cyd-fynd yn dda â blaenoriaethau'r ysgol ac anghenion datblygu staff.

Mae staff yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd niferus sydd ar gael iddynt i rannu arferion da a thrafod addysgeg, er enghraifft trwy gyfarfodydd 'Lledaenu Llwyddiant'. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd yr addysgu, strategaethau hybu perthnasoedd cadarnhaol yn y dosbarth, a'r ddarpariaeth i wella medrau llythrennedd. Mae'r ysgol hefyd yn cydweithio'n effeithiol ag ysgolion eraill i rannu arferion da a chryfhau darpariaeth.

Mae gan lywodraethwyr wybodaeth gadarn am gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella, ac maent yn cynnig her a chefnogaeth briodol i arweinwyr. Mae'r corff llywodraethol yn angerddol dros rôl yr ysgol yn y gymuned.

Mae'r pennaeth, y rheolwr busnes a'r llywodraethwyr yn monitro'r gyllideb yn ofalus ac yn sicrhau cyllid ar gyfer blaenoriaethau'r ysgol. Maent hefyd yn gweithio'n gynhyrchiol i sicrhau ffynonellau cyllid ychwanegol i gefnogi prosiectau.

Defnyddir y grant datblygu disgyblion yn bwrpasol i gefnogi disgyblion, ac mae gan yr ysgol ystod eang o strategaethau ar waith i leihau effaith tlodi ar gyflawniad a lles disgyblion. Mae hyn yn cynnwys cymorth ar gyfer gwisg ysgol, offer a chostau gweithgareddau, ynghyd â darparu bwyd am ddim yng nghaffi cymunedol yr ysgol. Mae'r gwaith hwn wedi cael effaith gadarnhaol ar gyfraddau presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, er bod gwelliant dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad y grŵp hwn o ddisgyblion ar ddiwedd Blwyddyn 11 yn parhau'n is na pherfformiad eu cymheiriaid mewn ysgolion tebyg.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni/gofalwyr a’r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a’r corff llywodraethol / aelodau’r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a’r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo’n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo’n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion (lle y bo’n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 01/07/2026